# Yr Ysgol Meddygaeth -
# Amrywio i'r polisi derbyn ar gyfer mynediad 2025

Mae'r polisi hwn yn rhoi manylion am ofynion ychwanegol y rhaglenni canlynol a gynigir gan yr Ysgol Meddygaeth:

- MBBCH Meddygaeth (A100)
- Ffrwd Cyflenwi Meddyginiaeth MBBCh (A101)

**Sylwer:** dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â Pholisïau Derbyn Prifysgol Caerdydd a'r gofynion mynediad cyhoeddedig.

## Cynnwys


1. Gwiriadau cymhwysedd cyn ymgeisio ..... 2

2. Gofynion mynediad ..... 2

3. Dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau UCAS ..... 3

4. Y broses ddethol ..... 4

5. Gordanysgrifio ..... 4

Atodiad A - Cymwysterau Lefel 2 ar gyfer A100 ac A101 ..... 5

Atodiad B - Cymwysterau Lefel 3 a Lefel 3+ ansafonol (DU ac Iwerddon) ar gyfer A100 ..... 6

Atodiad C - Cymwysterau Rhyngwladol ac Ewropeaidd (ac eithrio Iwerddon) ar gyfer A100 ..... 7

Atodiad D – Ymgeiswyr Graddedig ar gyfer A100 ..... 8

Atodiad E – Ymgeiswyr Graddedig ar gyfer A101 ..... 9

## 1. Gwiriadau cymhwysedd cyn ymgeisio

1.1 I fod yn gymwys i wneud cais am y rhaglenni hyn, mae'n rhaid i chi:

a) fod yn 18 oed erbyn 20 Medi ym mlwyddyn 1 (gweler y polisi oedran mynediad am ragor o wybodaeth),

b) a chyflawni'r rheoliadau Addasrwydd i Ymarfer a chymhwyster i ddilyn gofynion rhaglenni rheoledig (gweler y polisiAddasrwydd i Ymarfer a chymhwyster i ddilyn rhaglenni rheoledig am ragor o wybodaeth),

c) a bodloni'r gofynion mynediad gofynnol ar Lefel 2 (TGAU fel arfer) a Lefel 3 (Safon Uwch fel arfer), gan gynnwys gofynion gradd a phwnc.

## 2. Gofynion mynediad

2.1 Cyhoeddir y gofynion mynediad nodweddiadol ar gyfer TGAU, Safon Uwch, BTEC, y Fagloriaeth Ryngwladol (IB), ac ymgeiswyr Lefel T (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel "gofynion mynediad safonol") ar Coursefinder ac UCAS (gan gynnwys gofynion gradd a phwnc, a p'un a yw'r cymwysterau hyn yn cael eu derbyn).

2.2 Rhaid i bob ymgeisydd ddarparu tystiolaeth o allu academaidd blaenorol mewn arholiadau a safonir yn allanol, a ddilysir yn gyhoeddus, e.e TGAU, IGCSE, neu gymwysterau cyfwerth. Ar gyfer ymgeiswyr sydd â chymwysterau'r DU, dim ond y rhai a ddiffinnir yn y Gronfa Ddata Genedlaethol o Gymwysterau Achrededig sy'n dderbyniol.

**2.3 Gofynion mynediad ansafonol:** Dylai ymgeiswyr nad ydynt yn bodloni'r gofynion mynediad safonol gyfeirio at yr atodiadau am arweiniad pellach.

**2.4 Ymgeiswyr i A101:** Rhaid i ymgeiswyr ar gyfer A101 fodloni'r gofynion mynediad ar gyfer A101 a gyhoeddwyd ar y pwynt mynediad i un o'r ffrydiau cymeradwy, fel y nodir yn y cytundeb dilyniant gyda'r sefydliad partner.

**2.5 Gofynion ychwanegol ar gyfer Safon Uwch:** Dim ond un pwnc Bioleg Safon Uwch (Bioleg, Bioleg Ddynol, neu amrywiadau eraill ar fioleg) fydd yn cael ei ystyried.

**2.6 Eithriadau Lefel UG** Gall ymgeiswyr sy'n cynnig Bioleg **neu** Gemeg yn unig ar Lefel A2, **ac** ail bwnc gwyddonol e.e. Ffiseg neu Fathemateg, gael eu hystyried o hyd ar gyfer cwrs A100, os ydynt yn ennill gradd A ar lefel UG yn y pwnc (Bioleg neu Gemeg) na chynigir ar Lefel A2.

**2.7 Ailsefyll ar Lefel 2:** Dim ond o fewn 12 mis i'r arholiad gwreiddiol y byddwn yn derbyn ailsefyll Lefel 2 (ee, TGAU). Rhaid cwblhau'r rhain cyn gwneud cais. Yr eithriad i hyn yw Saesneg Iaith sydd heb unrhyw derfyn amser ar gyfer ailsefyll ond mae'n rhaid ei gynnwys fel 'wedi'i gyflawni' neu 'aros am ganlyniad' ar y ffurflen gais.

**2.8 Ailsefyll ar Lefel 3:** Ni dderbynnir ailsefyll Lefel 3 fel arfer. Dim ond os darperir tystiolaeth o amgylchiadau esgusodol y gellir ystyried ailsefyll ar Lefel 3 ar gyfer y rhai a dderbyniodd gynnig amodol yn y cylch blaenorol. Rhaid darparu'r rhain i Grŵp Derbyn yr Ysgol Meddygaeth (drwy medadmissions@caerdydd.ac.uk) fel y gellir eu trafod, a gwneud penderfyniad cyn gwneud cais eto. Byddwn yn ystyried ceisiadau lle mae modiwlau wedi'u hailsefyll ar lefel UG neu Safon Uwch, yn unol â'r ddealltwriaeth bod y cymhwyster Lefel 3 llawn yn cael ei gwblhau yn ystod y cyfnod Safon Uwch safonol o ddwy flynedd.

**2.9 UCAT:** Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd sefyll Prawf Tueddfryd Clinigol y Brifysgol (UCAT) yn ystod Gorffennaf i Hydref ym mlwyddyn y cais. Ni dderbynnir canlyniadau profion a gafwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Gellir defnyddio sgôr y prawf hwn i lunio rhestr fer o ymgeiswyr i gyfweld â nhw neu wneud cynnig iddynt. Nid oes isafswm sgôr ac mae'r terfyn (os defnyddir yr UCAT) yn amrywio ym mhob cylchred.

2.9.1 Rhaid cyflwyno unrhyw amgylchiadau esgusodol sy'n ymwneud â'r UCAT i UCAT a dilyn eu polisi a'u gweithdrefnau

**2.10 Trosglwyddiadau:** Nid ydym yn derbyn trosglwyddiadau allanol (a elwir hefyd yn RPL) i A100 neu A101.

**2.11 Myfyrwyr Israddedig Presennol:** Dylai ymgeiswyr sy'n gwneud cais cyn cwblhau gradd anrhydedd yn derfynol fod yn eu blwyddyn olaf. Bydd unrhyw gynnig yn seiliedig ar gyflawni gradd 2:1 neu'n uwch yn ogystal â bod wedi cyflawni lleiafswm y gofynion mynediad ar gyfer graddedigion ar A100. Gall ymgeiswyr sydd wedi dechrau gradd, ond sydd wedi dewis peidio â'i chwblhau, wneud cais am yr A100 ond rhaid bod nhw:

- wedi tynnu'n ôl o'u cwrs ac
- wedi darparu llythyr gan eu prifysgol i Grŵp Derbyn yr Ysgol Meddygaeth (medadmissions@cardiff.ac.uk) yn cadarnhau bod y tynnu'n ôl yn wirfoddol ac nid o ganlyniad i fethu â symud ymlaen oherwydd perfformiad academaidd gwael neu bryderon ynghylch uniondeb.

Cyn belled â bod y ddau amod hyn yn cael eu bodloni, bydd y cais yn cael ei ystyried o fewn y garfan ymgeiswyr am y flwyddyn ymgeisio a bydd yn amodol ar y broses ddethol lawn yn unol â'r rhai sy'n gwneud cais â graddau Safon Uwch a enillwyd.

## 3. Dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau UCAS

3.1 Rhaid i chi gyflwyno cais wedi'i gwblhau'n llawn (gan gynnwys yr holl gymwysterau academaidd a Saesneg, tystlythyrau a datganiad personol a gyflawnwyd yn flaenorol ac sydd ar y gweill) trwy UCAS erbyn 15 Hydref 2024 am 18:00 (amser y DU).

3.1.1 Ni fydd ceisiadau a gyflwynir ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried a byddant yn cael eu gwrthod fel rhai “hwyr”.

3.1.2 Lle na allwn roi sgôr academaidd i'ch cais oherwydd bod gwybodaeth ar goll, gan gynnwys lle nad yw datganiad personol neu eirda wedi'i ddarparu, caiff eich cais ei wrthod am ei fod yn anghyflawn.

3.2 Os oes gennych gymwysterau ansafonol neu gymwysterau Lefel 3+ sydd eisoes wedi’u hennill, fe’ch gwahoddir i anfon tystysgrifau a thrawsgrifiadau atom ar yr un pryd â chyflwyno’r cais UCAS. Gallwch lanlwytho copïau o'ch cymwysterau i'n porth cais (sims.cf.ac.uk) ar ôl derbyn eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair Prifysgol Caerdydd, neu gellir anfon copïau PDF neu JPEG yn uniongyrchol at admissions@caerdydd.ac.uk o'r cyfeiriad e-bost a roddir ar y cais UCAS gyda 'Cais Meddygaeth - dogfennau ategol' yn y llinell bwnc ac enw llawn, enw'r rhaglen, ac ID UCAS yng nghorff yr e-bost.

## 4. Y broses ddethol

4.1 Os ydych chi’n bodloni’r gofynion mynediad lleiaf ar Lefel 2 (TGAU fel arfer) a Lefel 3 (Safon Uwch fel arfer), wedi cyflwyno datganiad personol a geirda derbyniol, ac wedi cwblhau’r UCAT o fewn yr amserlen ofynnol, bydd eich cais yn cael sgôr academaidd yn seiliedig ar y cymwysterau Lefel 2 a 3 a enillwyd.

4.2 Gwahoddir yr ymgeiswyr sy'n sgorio uchaf i gyfweliad. (Gweler y polisi cyfweliad a chlyweliad am ragor o wybodaeth am y fframwaith ar gyfer cynnal cyfweliadau.)

4.2.1 Caiff ceisiadau eu sgorio ar sail cymwysterau a enillwyd yn unig.

4.2.2 Mae pynciau gorfodol yn cael eu sgorio yn gyntaf, yna caiff sgôr ei roi i weddill y pynciau â'r graddau uchaf.

4.2.3 Os methwch â chyflwyno dau sgôr ar gyfer gwyddoniaeth ddwbl erbyn y dyddiad cau, byddwch yn cael gradd dybiedig un radd yn is na'r radd a roddwyd. Er enghraifft, os dywedwch eich bod wedi ennill gradd A, byddwch yn cael eich sgorio gan dybio eich bod wedi ennill graddau AB.

4.2.4 Gellir defnyddio UCAT yn y broses ddethol lle mae nifer yr ymgeiswyr â'r un sgôr yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael mewn cyfweliad.

4.3 Rhoddir ystyriaeth ychwanegol yn y broses sgorio ar gyfer:

- ymgeiswyr sy'n cael eu dosbarthu fel ymgeiswyr cyd-destunol. Gweler y polisi derbyn cyd-destunol i gael rhagor o wybodaeth am bwy sy'n cael ei ystyried yn gyd-destunol a sut mae hyn yn cael ei gymhwyso i bob rhaglen.
- ymgeiswyr sy'n cymryd rhan mewn rhai mentrau ehangu cyfranogiad yn y flwyddyn y maent yn gwneud cais am y rhaglen. Mae cymryd rhan yn un o'r mentrau canlynol a bodloni lleiafswm y gofynion mynediad yn sicrhau cyfweliad gwarantedig:
    - Rhaglen Camu ‘Mlaen i'r Brifysgol Prifysgol Caerdydd
    - Aelodau o Ymddiriedolaeth Sutton sy’n mynd i Ysgol Haf Prifysgol Caerdydd,
    - Coleg Cymraeg Cenedlaethol (y cynllun Doctoriad Yfory yn benodol),
    - Tystysgrif Coleg Gwent
    - Cwrs Mynediad i Feddygaeth Agored Cymru
- ymgeiswyr sy'n hanu o Gymru.
- ymgeiswyr sy'n rhan o'n rhaglenni Chwaraeon Perfformiad Uchel. Gweler y polisi llawn i gael rhagor o wybodaeth am gymhwysedd a sut mae hyn yn cael ei gymhwyso i bob rhaglen.

4.3.1 Os ydych yn gymwys mewn mwy nag un categori a restrir uchod, dim ond mewn un o'r categorïau hyn y cewch ystyriaeth ychwanegol.

## 5. Gordanysgrifio

5.1 Mae gan yr Ysgol Meddygaeth bolisi gordanysgrifio ar waith i reoli niferoedd ar bob cwrs, gan fod y rhain yn cael eu capio gan Lywodraeth Cymru. Gweler y polisi gordanysgrifio i gael rhagor o wybodaeth ynghylch i bwy y gall hwn fod yn berthnasol iddo a sut a phryd y gellir ei ddefnyddio.

## Atodiad A- Cymwysterau Lefel 2 ar gyfer A100 ac A101

Mae'r tabl isod yn amlinellu gwybodaeth ychwanegol yn ymwneud â gofynion mynediad ansafonol ar gyfer cymwysterau Lefel 2. Ystyrir bod unrhyw gymwysterau nad ydynt wedi'u rhestru yn yr adran hon neu a gyhoeddir ar dudalennau'r cwrs yn annerbyniol ar gyfer mynediad.

| | |
|---|---|
| **TGAU Mathemateg a Rhifedd** | Gellir derbyn uchafswm o un o'r pynciau canlynol yn ogystal â Mathemateg neu Rifedd fel rhan o'r naw cymhwyster Lefel 2 sy'n ofynnol ar gyfer y broses sgorio a dethol:<br>• Mathemateg Ychwanegol<br>• Cymwysiadau Mathemateg<br>• Tystysgrif AQA Lefel 2 mewn Mathemateg Bellach<br>• Dulliau Mathemateg<br>• Rhifedd<br>• Ystadegau |
| **TGAU Gwyddoniaeth** | Mae angen dwy radd ar Lefel 2 a dylent gynnwys:<br>• Cemeg a Bioleg (neu Fioleg Ddynol)<br>• Gwyddoniaeth Graidd, ac un o Wyddoniaeth Ychwanegol neu Wyddoniaeth Ychwanegol Bellach<br>• Gwyddoniaeth dyfarniad dwbl<br>• Gwyddoniaeth a Gwyddoniaeth Ychwanegol<br>• neu gyfwerth<br>• |
| **TGAU Cyrsiau Byr (Lefel 1 neu Lefel 1/2)** | Ni chaiff cwrs byr TGAU sengl ei ystyried ar ei ben ei hun. Fodd bynnag, os nad ydych yn cynnig 9 TGAU llawn, yna gall dau gwrs TGAU byr gyfrif fel un TGAU cyfan. |
| **Cymwysterau Lefel 2 derbyniol eraill (DU)** | Gellir defnyddio'r cymwysterau canlynol yn lle un TGAU yn y broses ddethol:<br>• Tystysgrif mewn Cymwysiadau Digidol (CiDA) Busnes Cymhwysol neu TGCh<br>• Diploma mewn Cymwysiadau Digidol (DiDA)<br>• Tystysgrif LIBF mewn Gallu Ariannol a Datblygu Gyrfa<br>• Tystysgrif Her Sgiliau Genedlaethol/Sylfaen CBAC (Lefel 2) |

Lle na all ymgeisydd gymryd naw TGAU (neu gyfwerth) oherwydd polisi eu hysgol neu goleg, rhaid iddynt gynnig o leiaf 7 TGAU ac fe'u cynghorir i anfon e-bost at medadmissions@caerdydd.ac.uk cyn gwneud cais am gyngor pellach.

## Atodiad B - Cymwysterau Lefel 3 a Lefel 3+ ansafonol (DU ac Iwerddon) ar gyfer A100

Mae'r tabl isod yn amlinellu gwybodaeth ychwanegol yn ymwneud â gofynion mynediad ansafonol ar gyfer cymwysterau Lefel 3 a 3+. Ystyrir bod unrhyw gymwysterau nad ydynt wedi'u rhestru yn yr adran hon neu a gyhoeddir ar dudalennau'r cwrs yn annerbyniol ar gyfer mynediad.

| | |
|---|---|
| **Agored Cymru Mynediad i Addysg Uwch** | Ar gyfer ymgeiswyr posibl nad ydynt wedi astudio Safon Uwch Bioleg a Chemeg ond sy'n disgwyl bodloni ein gofynion gradd TAG Safon Uwch ar gyfer A100, mae'r Diploma Mynediad i Addysg Uwch ar gyfer Meddygaeth (qaa.ac.uk) ar gael gan Agored Cymru. Rhaid i ymgeiswyr hefyd fodloni'r gofynion mynediad lleiaf ar Lefel 2 a rhaid iddynt gysylltu â medadmissions@caerdydd.ac.uk i wirio a ydynt yn gymwys ar gyfer y llwybr cais hwn cyn cyflwyno cais. |
| **Bagloriaeth AQA** | Nid yw'r cymhwyster hwn yn dderbyniol ar gyfer mynediad. |
| **Diploma Cyn-Prifysgol Caergrawnt** | Derbynnir y Diploma Cyn-Brifysgol llawn gyda thair gradd D3 yn y Prif Bynciau, sy'n gorfod cynnwys Cemeg a Bioleg.<br>Fel arall, gall ymgeiswyr gynnig cyfuniad o Brif Bynciau a chymwysterau Lefel 3 derbyniol eraill. Rhaid bodloni gofynion pwnc a gradd. |
| **Tystysgrif Ymadael (Leaving Certificate) Iwerddon** | Yn lle'r gofynion Lefel 2 nodweddiadol bydd angen i chi fod wedi cyflawni Gradd B neu Deilyngdod Uwch ym mhob pwnc gan gynnwys Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth yn y Dystysgrif Iau a gradd O3 mewn Saesneg a Mathemateg yn y Dystysgrif Gadael.<br><br>**Cynnig nodweddiadol:**<br>H1 mewn Bioleg a Chemeg a H2 mewn pedwar pwnc arall |
| **Cymwysterau eraill y DU** | Dylai ymgeiswyr gyfeirio at hefyd y wybodaeth ar ein gwefan i gael rhagor o wybodaeth:<br>https://www.caerdydd.ac.uk/cy/study/undergraduate/applying/policies-and-procedures/qualification-acceptance |
| **Cymwysterau 'National 5', 'Higher' ac 'Advanced Higher' yr Alban** | Bydd cymwysterau National 5 a Higher yn cael eu derbyn yn lle TGAU. Mae'n rhaid i'r gofynion o ran lefel, gradd a phynciau cyfateb gael eu bodloni. Ni fydd pynciau dyblyg yn cael eu cyfrif ddwywaith.<br><br>**Cynnig nodweddiadol:**<br>AAAAB mewn Higher mewn unrhyw bynciau, a BB mewn Bioleg a Chemeg Advanced Higher. |

## Atodiad C - Cymwysterau Rhyngwladol ac Ewropeaidd (ac eithrio Iwerddon) ar gyfer A100

Ar gyfer y mwyafrif o ymgeiswyr, gellir defnyddio tabl cyfwerthedd rhyngwladol y Brifysgol i gyfrifo'r hyn sy'n cyfateb yn briodol i'r gofynion mynediad Safon Uwch a TGAU. Fodd bynnag, mae rhai eithriadau a/neu ofynion ychwanegol yn berthnasol.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Ysgol Meddygaeth yn uniongyrchol: medadmissions@caerdydd.ac.uk

## Atodiad D – Ymgeiswyr Graddedig ar gyfer A100

| | |
|---|---|
| **Graddedigion gyda Baglor mewn Llawfeddygaeth Ddeintyddol gydag Anrhydedd (neu gyfwerth)** | Os oes gennych Faglor mewn Llawfeddygaeth Ddeintyddol gydag Anrhydedd (neu gyfwerth) nid ydych yn gymwys ar gyfer A100 (rhaglen 5 mlynedd). Gweler Atodiad E am wybodaeth am y rhaglen A101. |
| **Graddedigion gyda Baglor gydag Anrhydedd** | Mae'n rhaid bodloni gofynion Lefel 2 (pynciau a graddau).<br>Rhaid bodloni gofynion Lefel 3 cyfwerth â Lefel A BBB neu ABC gan gynnwys Bioleg a Chemeg.<br><br>**Rhaid i ymgeiswyr graddedig fod wedi cwblhau eu gradd neu fod ym mlwyddyn olaf eu gradd bresennol** er mwyn i'w cais gael ei ystyried. Rhaid dyfarnu canlyniadau gradd a'u cyflwyno erbyn 31 Awst o'r flwyddyn y byddant yn cael eu derbyn i'r cwrs.<br><br>**Cynnig nodweddiadol:**<br>Gradd Anrhydedd 2:1 mewn unrhyw bwnc |
| **Graddedigion PhD** | Mae'n rhaid bodloni gofynion Lefel 2 (pynciau a graddau).<br>Rhaid bodloni gofynion Lefel 3 cyfwerth â Lefel A BBB neu ABC gan gynnwys Bioleg a Chemeg.<br><br>Rhaid i ymgeiswyr gysylltu â medadmissions@caerdydd.ac.uk i wirio eu cymhwysedd cyn cyflwyno cais.<br><br>**Cynnig nodweddiadol:**<br>Pasio mewn PhD |

## Atodiad E – Ymgeiswyr Graddedig ar gyfer A101

| | |
|---|---|
| **Graddedigion gyda Baglor mewn Llawfeddygaeth Ddeintyddol gydag Anrhydedd (neu gyfwerth)** | Gellir cynnig uchafswm o ddau le ym mhob cylch i raddedigion deintyddiaeth.<br><br>Mae'n rhaid bodloni gofynion Lefel 2 (pynciau a graddau).<br>Rhaid bodloni gofynion Lefel 3 cyfwerth â Lefel A BBB neu ABC gan gynnwys Bioleg a Chemeg.<br><br>Rhaid i ymgeiswyr gyflwyno CV llawn i Dîm Derbyn yr Ysgol Meddygaeth (medadmissions@caerdydd.ac.uk) ar adeg gwneud eu cais UCAS.<br><br>Yn lle geirda academaidd, gall ymgeiswyr ddarparu geirda gan Lawfeddyg y Geg a'r Wyneb.<br><br>Yn ogystal â'r gofynion academaidd, UCAT, ac MMI, efallai y bydd gofyn i ymgeiswyr hefyd gymryd rhan mewn cyfweliad panel (gan gynnwys Llawfeddygon y Geg, y Genau a'r Wyneb lleol) er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr yn bwriadu dilyn llwybr hyfforddi Cymdeithas Llawfeddygon Prydeinig y Geg, y Genau a'r Wyneb (OMFS).<br><br>**Cynnig nodweddiadol:**<br>Pasio mewn BDS |
| **Graddedigion gyda Baglor gydag Anrhydedd mewn gradd nad yw'n seiliedig ar wyddoniaeth** | Os oes gennych Faglor gydag Anrhydedd mewn gradd nad yw'n seiliedig ar wyddoniaeth, nid ydych yn gymwys ar gyfer A101 (rhaglen 4 blynedd). Gweler Atodiad E am wybodaeth am y rhaglen A100. |
| **Graddedigion gyda Baglor gydag Anrhydedd mewn gradd seiliedig ar wyddoniaeth (nid o ffrwd gymeradwy)** | Os oes gennych Faglor gydag Anrhydedd mewn gradd nad yw'n seiliedig ar wyddoniaeth, nid ydych yn gymwys ar gyfer A101 (rhaglen 4 blynedd). Gweler Atodiad E am wybodaeth am y rhaglen A100. |
| **Graddedigion o ffrwd gymeradwy** | Mae'n rhaid bodloni gofynion Lefel 2 (pynciau a graddau).<br>Rhaid bodloni gofynion Lefel 3 cyfwerth â Lefel A BBB neu ABC gan gynnwys Bioleg a Chemeg. Yn lle gofynion Lefel 3, gellir ystyried ymgeiswyr ar ôl cwblhau'r Flwyddyn Sylfaen ffrwd gysylltiedig yn llwyddiannus.<br><br>**Sylwer:** Mae perfformiad academaidd unigol sy'n ofynnol i gynnal cymhwyster i wneud cais i'r cwrs A101 yn cael ei osod gan bob cwrs Ffrwd Cyflenwi.<br>Cyfrifoldeb y Brifysgol sy'n darparu'r Ffrydiau cyflenwi yw gwirio'r gofynion mynediad a sicrhau bod ymgeiswyr sy'n gwneud cais wedyn i'r A101 yn gystadleuol.<br><br>**Cynnig nodweddiadol:**<br>Gradd Anrhydedd 2:1 yn un o'r canlynol, gan gynnwys cwblhau modiwlau rhagofyniad perthnasol yn llwyddiannus: |

| | |
|---|---|
| | • Gradd BSc (Anrh) Ffarmacoleg Feddygol, Ysgol Meddygaeth, Prifysgol Caerdydd (B210)<br>• BSc (Anrh) Gwyddorau Biofeddygol, Ysgol y Biowyddorau, Prifysgol Caerdydd (BC97)<br>• BSc (Anrh) Gwyddorau Meddygol, Prifysgol De Cymru (B901)*<br>• BMedSci (Anrh) Gwyddorau Meddygol, Prifysgol Bangor (B100)*<br><br>** Mae'r trefniadau o ran y ffrydiau cyflenwi hyn yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd.* |